



DATGANIAD PROFIAD BYWYD



Unig bwrpas Ara Recovery for All yw darparu Gobaith a Bywydau Gwell i rai o'r bobl fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas.

Ffurfiwyd Ara, fel elusen yn 1987 gan bobl a oedd â phrofiad go iawn o faterion alcohol a chyffuriau ac a oedd eisiau helpu eraill mewn sefyllfa debyg. Mae hyn yn rhan bwysig o'n treftadaeth ac yn rhan bwysig o'n dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae tua 35% o'n staff yn bobl sydd â phrofiad bywyd o faterion y mae ein gwasanaethau'n mynd i'r afael â nhw. Mae Ara yn sicrhau bod yr holl staff yn gweithio i'r arfer gorau posibl a llywodraethu mudiadol llym.

Mae'r datganiad hwn yn disgrifio ein cysyniad o gydweithwyr Profiad Bywyd, unigolion sydd wedi profi niwed gamblo, materion alcohol neu gyffuriau, digartrefedd, a neu ofid meddyliol ac emosiynol, rhai ohonynt wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Maent wedi defnyddio gwasanaethau Ara neu wasanaethau eraill ac wedi gweithio tuag at adferiad ac iachâd.

Maent yn defnyddio eu profiadau personol i feithrin perthynas ag eraill sydd wedi mynd trwy frwydrau tebyg, gan feithrin ymdeimlad o gyd-ddealltwriaeth, hunanbenderfyniad, grymuso a gobaith.

Mae'n debygol bod yr unigolion hyn wedi wynebu heriau amrywiol, fel:

- Trawma, trallod a phoen emosiynol
- Colled a galar
- Stigma a gwahaniaethu
- Colli hawliau neu annibyniaeth
- Llywio systemau cymhleth

Bydd eu profiadau hefyd wedi cynnwys:

- Colli ac adennill gobaith
- Datgymalu o'r brwydrau a wynebwyd ganddynt

Mae staff Ara sydd â phrofiad bywyd yn dod â'u safbwyntiau a'u profiadau amrywiol i'r bwrdd, gan gynnig ased wrth gefnogi eraill sy'n mynd trwy frwydrau tebyg.



DATGANIAD PROFIAD BYWYD



Mae gan bobl sydd â phrofiad bywyd a/neu fyw wybodaeth, profiad, dealltwriaeth ac arbenigedd sy'n hanfodol i wella a chryfhau profiad ein buddiolwyr a'n darpariaeth gwasanaeth. Rydym yn falch o alluogi'r rhai sydd â phrofiad bywyd / byw i fod wrth wraidd dylunio, cyflwyno, gwerthuso a gwella parhaus.

Mae cydweithwyr profiad o lygad y ffynnon yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau Ara yn diwallu anghenion y bobl, y teuluoedd a'r cymunedau y mae wedi'u cynllunio i'w gwasanaethu. Wrth barhau â'n llwybr o welliant cyson. Er mwyn bodloni gofynion penodedig y cwsmer, mae Ara yn cymhwyso System Rheoli Ansawdd ar y cyd â rheolaethau rheoli eraill; Mae hyn yn cael ei ddisgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd a Threfniadaeth.

Mae'r cyfrifoldeb am gynnal y polisi hwn ar draws y Cwmni o dan y canllawiau a chyda chymorth Uwch Reolwyr sy'n annog ymrwymiad personol yr holl staff i fynd i'r afael ag ansawdd fel rhan o'u sylfaen sgiliau..

Polisi Ara yw ceisio gweithredu i'r System Rheoli Ansawdd hon (QMS) yn barhaus ac i weithredu safon ISO9001: 2015 yn llawn trwy gofrestru ac adolygu blynyddol.

Mae Ara yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n berthnasol i'w diwydiant, gan gynnwys yr holl reoliadau iechyd a diogelwch.

Cymeradwywyd gan

Graham England
Prif Weithredwr